OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2015 No. 1992

Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015

RHAN 12

Amrywiol

Addasu marciau adnabod

41. Ni chaiff neb addasu, dileu neu ddifwyno'r wybodaeth ar unrhyw farc adnabod sydd wedi ei osod ar anifail o dan y canlynol—

(a) Rheoliad y Cyngor;

(b) y Gorchymyn hwn neu unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi ei effaith i Reoliad y Cyngor yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon;

(c) y Gorchmynion blaenorol; neu

(d) Cyfarwyddeb y Cyngor 92/102/EEC, yn achos anifail a farciwyd mewn Aelod-wladwriaeth arall yn unol â'r Gyfarwyddeb honno.